Cyngor Sir CEREDIGION	
ADRODDIAD I'R:	Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Ffyniannus
DYDDIAD:	27 Gorffennaf 2022
LLEOLIAD:	
TEITL:	Adolygu'r Gwasanaethau Rheoli Gwastraff - cymorth gan ymgynghorwyr
PWRPAS YR ADRODDIAD:	Gofyn i Aelodau'r Pwyllgor gefnogi'r ffordd ymlaen sy'n cael ei chynnig ar gyfer adolygu gwasanaeth gwastraff Cyngor Sir Ceredigion
RHESWM Y MAE'R PWYLLGOR CRAFFU WEDI GOFYN AM Y WYBODAETH:	

CEFNDIR:

Paratowyd Strategaeth Rheoli Gwastraff diweddaraf y Cyngor ar gyfer y cyfnod rhwng 2014 a 2018 a'r Strategaeth hon sydd wedi bod yn sail i waith y gwasanaeth rheoli gwastraff ers hynny. Arweiniodd y strategaeth hon at y canlynol:

- Rhesymoli'r hyn a ddarperir o ran banciau casglu.
- Datblygu contractau ar gyfer trin gwastraff gweddilliol yn hytrach na'i waredu.
- Adolygu'r opsiynau ynghylch casglu gwastraff wrth ymyl y ffordd, ac yn dilyn hynny, rhoi'r model presennol ar waith ar ôl iddo gael ei gymeradwyo'n ddemocrataidd.
- Adolygu'r seilwaith gwastraff, gan gynnwys Safleoedd Gwastraff Cartref a Gorsafoedd Trosglwyddo Gwastraff.
- Gwell trefniadau ar gyfer monitro a rheoli contractau.
- Cynnydd yng nghyfradd ailgylchu'r sir o 58.4% yn 2013/14 i 70.2% yn 2020/21.
- Gostyngiad mawr yng nghyfanswm y gwastraff sy'n cael ei gynhyrchu.
- Gweld Ceredigion yn gyson ymhlith y 4 Sir gorau yng Nghymru o ran perfformiad.
- Llai na 5% o wastraff trefol bellach yn cael ei anfon i safleoedd tirlenwi.
- Gwasanaethau cost effeithiol – hyn i'w weld o'r data meincnodi cenedlaethol.

Mae angen strategaeth newydd i amlinellu cyfeiriad y gwasanaeth at y dyfodol, gan roi sylw penodol i Safleoedd Gwastraff Cartref y sir, y model nesaf ar gyfer casglu gwastraff wrth ymyl y ffordd a'r trefniadau ar gyfer Gorsafoedd Trosglwyddo Gwastraff.

Safleoedd Gwastraff Cartref

Cyngor Sir Ceredigion sy'n berchen ar y Safleoedd Gwastraff Cartref yn Aberteifi, Llanarth ac Aberystwyth ac maent yn cael eu gweithredu gan gwmnïau rheoli gwastraff lleol sydd o dan gontract. Mae'r contractau hyn yn destun ymarferion caffael rheolaidd. Contractwr preifat sy'n berchen ar y pedwerydd safle yn Llanbedr Pont Steffan a chaiff ei weithredu o dan gontract. Mae disgwyl i bob un o'r pedwar contract ddod i ben ym mis Ionawr 2024.

Safleoedd etifeddol yw'r tri safle y mae Cyngor Sir Ceredigion yn berchen arnynt. Mae maint a lleoliad rhai o'r safleoedd hyn yn cyfyngu ar fynediad a'r cyfleoedd ar gyfer datblygu at y dyfodol. Mae'r safle yn Llanbedr Pont Steffan wedi gweld rhywfaint o fuddsoddiad yn ystod y 10 mlynedd ddiwethaf ond gall risgiau a phroblemau godi am mai perchennog preifat sydd gan y safle.

Mae'r gwasanaeth wedi ymrwymo i adolygu'r ddarpariaeth o ran y Safleoedd Gwastraff Cartref gan ystyried nifer y safleoedd a'u lleoliad, yr oriau agor, y deunydd a dderbynnir a'r opsiynau o ran comisiynu/gweithredu.

Mae profiad wedi dangos mai anodd iawn yw bwrw ymlaen ag unrhyw newidiadau arfaethedig i'r Safleoedd Gwastraff Cartref am fod y safleoedd yn eu ffurf bresennol yn cael eu gwerthfawrogi'n fawr. Serch hynny, o bryd i'w gilydd, rhaid gwneud addasiadau iddynt er mwyn adlewyrchu newidiadau ariannol a deddfwriaethol yn ogystal â newidiadau yng nghyfeiriad strategol Llywodraeth Cymru.

Gorsafoedd Trosglwyddo Gwastraff

Mae Cyngor Sir Ceredigion yn rhedeg Gorsaf Trosglwyddo Gwastraff lwyddiannus yn Aberystwyth, sy'n cael ei ddefnyddio fel cyfleuster crynhoi ar gyfer ffrydiau gwastraff a gesglir yng ngogledd y sir. Mae'r cyfleusterau ar gyfer gwastraff a gesglir yn ne'r sir ar hyn o bryd yn cael eu darparu gan drydydd partïon. Mae cyfle i ddatblygu Gorsaf Trosglwyddo Gwastraff yn nepo'r Cyngor ym Mhenrhos ac mae'r opsiwn hwn yn cael ei archwilio ar hyn o bryd. Yn y cyfamser, rydym yn parhau i gaffael mynediad at gyfleusterau trydydd parti.

Cyfleusterau sy'n cael eu rhoi allan ar gontract

Mae manteision ac anfanteision i wasanaethau sy'n cael eu rhoi allan ar gontract a gwasanaethau mewnol fel ei gilydd. Yn achos pob cyfleuster a weithredir o dan gontract i drydydd parti, caiff unrhyw newidiadau i ofynion y gwasanaeth yn ystod cyfnod y contractau dan sylw (e.e. diwrnodau neu oriau gweithredu'r gwasanaeth, y deunyddiau a dderbynnir) eu trafod gyda'r gweithredwyr. Gall hyn arwain at oedi wrth gyflwyno newidiadau a chynnydd mewn costau. Mae natur ddeinamig ac integredig y diwydiant gwastraff yn golygu y gall fod

yn anodd mabwysiadu dull gweithredu holistaidd ar draws y gwasanaeth pan fo gennym gymysgedd o wasanaethau mewnol a gwasanaethau dan gontract.

Model Casglu Gwastraff wrth Ymyl y Ffordd

Un o'r prif bethau y mae Awdurdodau Lleol yng Nghymru wedi bod yn ei drafod dros nifer o flynyddoedd yw'r trefniadau ynghylch casglu gwastraff gan ystyried a ddylid casglu deunydd ailgylchadwy cymysg (h.y. yr holl wastraff ailgylchadwy wedi'i roi mewn un sach a heb ei wahanu'n bapur, caniau ac ati.) neu a ddylid mabwysiadu'r dull y mae Llywodraeth Cymru yn ei ffafrio sef didoli gwastraff wrth ymyl y ffordd. Ers i Lywodraeth Cymru gyhoeddi'r Glasbrint Casgliadau yn 2012, mae newid graddol wedi bod ledled Cymru gyda mwy o Gynghorau yn didoli gwastraff wrth ymyl y ffordd. Erbyn hyn, mae 13 o Awdurdodau Lleol wedi mabwysiadu'r Glasbrint; mae gan 3 Awdurdod Lleol system 3 ffrwd; mae gan un Awdurdod Lleol wasanaeth bob yn ail wythnos ac mae gan 5 Awdurdod Lleol, gan gynnwys Cyngor Sir Ceredigion, wasanaeth ailgylchu cymysg. Serch hynny, mae mwy o Awdurdodau Lleol wedi cyhoeddi cynlluniau i symud tuag at y Glasbrint.

Rhoddwyd model presennol Cyngor Sir Ceredigion ar gyfer casglu gwastraff wrth ymyl y ffordd (lle mae'r deunydd ailgylchu yn gymysg mewn un sach) ar waith yn 2019 ar ôl i'r gwaith o fodelu'r opsiynau gael eu dadansoddi dros amser maith. Hefyd, cyn cyflwyno'r model, ymgynghorwyd â'r Aelodau a'r cyhoedd. Mae'r model presennol yn caniatáu i ffrydiau gwastraff o adeiladau domestig ac adeiladau cwsmeriaid gwastraff masnachol Cyngor Sir Ceredigion gael eu casglu gyda'i gilydd. Ystyrir mai dyma yw'r ffordd fwyaf effeithlon o ddarparu'r gwasanaethau yn y sir. Yn ystod yr adolygiad diwethaf, daethpwyd i'r casgliad y byddai cyflwyno system didoli wrth ymyl y ffordd yn arwain at berfformiad ailgylchu tebyg i'r hyn a geir o'r system bresennol o gasglu deunydd drwy ddefnyddio'r dull cymysg. Ar y pryd hwnnw, ni ystyriwyd bod angen didoli deunydd wrth ymyl y ffordd a dywedwyd na fyddai hynny'n ymarferol nac yn rhywbeth y byddai modd ei gyflawni o dan y trefniadau presennol oni bai y byddai gwelliannau mawr yn cael eu gwneud i'r seilwaith. Byddai newidiadau yn y trefniadau wedi arwain at oedi annerbyniol.

Er bod y gwasanaeth presennol hyd yma wedi caniatáu i'r Cyngor gyrraedd targedau ailgylchu Llywodraeth Cymru a rhagori arnynt, mae nifer o risgiau wedi'u nodi:

- Disgwylir i dargedau ailgylchu Llywodraeth Cymru gynyddu, a'r bwriad yw gweld dyfodol diwastraff erbyn 2050.
- Mae Llywodraeth Cymru yn ystyried opsiynau ar gyfer newid y ffordd y caiff perfformiad ei fesur, gan roi pwyslais ar ailgylchu deunyddiau penodol sydd â'r potensial mwyaf i leihau allyriadau carbon.

- Mae’r gwasanaeth casglu sydd ar waith yng Ngheredigion yn mynd yn groes i’r newidiadau arfaethedig yn y ddeddfwriaeth ynghylch ailgylchu masnachol gan fod y ddeddfwriaeth hon yn gofyn am gasglu ffrydiau ailgylchu masnachol ar wahân.
- Mae’r Cynllun Dychwelyd Ernes arfaethedig a’r ddeddfwriaeth o ran Cyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr yn debygol o effeithio ar gyfanswm a natur y deunyddiau ailgylchadwy sydd ar gael i’w casglu. Nid yw'r effeithiau hyn yn hysbys ar hyn o bryd.
- Gallai unrhyw newidiadau gan Lywodraeth Cymru i’r ddeddfwriaeth sydd ar hyn o bryd yn caniatáu i awdurdodau lleol gasglu deunyddiau ailgylchu yn gymysg effeithio ar allu Cyngor Sir Ceredigion i barhau â'i ddull casglu presennol.
- Wrth i fwy o Awdurdodau Lleol yng Nghymru symud tuag at ddidoli wrth ymyl y ffordd, mae'r mynediad at gyfleusterau ar gyfer didoli deunydd ailgylchu cymysg wedi lleihau ac mae hon yn risg sylweddol. Mae deunydd ailgylchu cymysg sych Cyngor Sir Ceredigion yn cael ei ddidoli ar hyn o bryd mewn cyfleuster yng Ngogledd Iwerddon.
- Mae’r ddibyniaeth ar y sector preifat ar hyn o bryd yn cyfyngu ar hyblygrwydd a’r gallu i ymateb i bwysau allanol a mewnol.
- Ceir risgiau sy’n gysylltiedig â demograffeg a daearyddiaeth Ceredigion. Beth bynnag fo'r model casglu gwastraff a ddewisir, oherwydd maint y gwastraff a gynhyrchir a'r pellter rhwng Ceredigion a safleoedd hyfyw ar gyfer trin gwastraff a’r marchnadoedd ar gyfer deunyddiau, mae'n debygol iawn y bydd y sir yn allforio ei gwastraff yn y tymor byr i dymor canolig o leiaf.
- Ceir pwyslais cynyddol ar gerbydau allyriadau isel iawn a’r agenda carbon yn ehangach

Er yr ymddengys ein bod ni’n perfformio’n dda wrth gasglu deunyddiau ailgylchu gan ddefnyddio’r dull cymysg a bod hon yn ffordd effeithlon o gasglu gwastraff yng Ngheredigion, mae’r ffaith ein bod ni’n parhau i wneud pethau’n wahanol i’r hyn y mae Llywodraeth Cymru yn ei ffafrio yn peri risg o ran medru parhau i gydymffurfio â deddfwriaeth a derbyn cymorth oddi wrth Lywodraeth Cymru (ac mae hyn yn arbennig o wir am gymorth ariannol).

Er nad oes disgwyl i'r fflyd o gerbydau ar gyfer casglu gwastraff wrth ymyl y ffordd gael eu hadnewyddu am 3 - 4 blynedd arall, yn y gorffennol, mae'r broses o arfarnu’r opsiynau ar gyfer modelau casglu wrth ymyl y ffordd wedi cymryd cryn amser i'w hystyried. Hefyd, ar ôl archebu’r cerbydau, mae angen caniatáu hyd at 18 mis iddynt gyrraedd. Cymhlethdod arall yw’r ffaith bod disgwyl i bob Awdurdod Lleol symud tuag at gerbydau allyriadau isel iawn erbyn 2030 a bod angen i ni ystyried yr hyn yr ydym ni am ei wneud.

Ceir cyfleoedd a manteision posibl wrth ystyried y model casglu wrth ymyl y ffordd a seilwaith y Safleoedd Gwastraff Cartref gyda’i gilydd fel system integredig. Mae’r cyfleoedd posibl hyn yn ymwneud â seilwaith / dyluniad y Safleoedd Gwastraff Cartref a’r modd y rheolir deunyddiau. Byddai felly yn briodol dechrau adolygiad o’r ddau wasanaeth yn ystod 2022.

Ystyrir y byddai hyn yn briodol o gofio bod contractau'r Safleoedd Gwastraff Cartref yn dod i ben yn gynnar yn 2024.

Byddai'r adolygiad o'r ddarpariaeth o ran Gorsafoedd Trosglwyddo Gwastraff yn cael ei gynnal yn fewnol a byddai canfyddiadau'r adolygiad hwnnw yn cyfrannu at yr adolygiad ehangach a wneir o'r gwasanaeth. Byddai'r adolygiad hwn yn ystyried materion megis datblygu a gweithredu Gorsaf Trosglwyddo Gwastraff yn fewnol yn Nepo'r Cyngor ym Mhenrhos gan gymharu hyn â chanfyddiadau'r ymarfer caffael ynghylch Gorsafoedd Trosglwyddo Gwastraff a gynhaliwyd yn ddiweddar.

Y CYNNIG

Cynigir penodi ymgynghorwyr allanol i adolygu'r gwasanaeth. Byddai'r ymgynghorwyr hyn yn gweithio'n agos gyda'r gwasanaeth rheoli gwastraff.

Er mwyn osgoi proses hir wrth werthuso'r opsiynau, cynigir y bydd yr adolygiad o'r gwasanaeth yn ystyried nifer o opsiynau ar seiliau rhesymegol. Nodir isod gwmpas arfaethedig y gwaith y bydd yr ymgynghorwyr yn ymgymryd ag ef.

<u>Casglu wrth ymyl y ffordd</u>

- Caiff nifer yr opsiynau sydd i'w modelu eu cyfyngu i'r canlynol:
    - Parhau â'r drefn bresennol
    - Didoli wrth ymyl y ffordd
    - Cyfyngu ar gyfanswm y gwastraff gweddilliol / Peidio â chyfyngu ar gyfanswm y gwastraff gweddilliol
- Hefyd, bydd angen ystyried y canlynol:
    - Yr opsiynau o ran tanwydd amgen
    - Y gwasanaeth casglu gwastraff annomestig
    - Llefydd penodol, megis adeiladau anodd eu cyrraedd ac ardaloedd o ddwysedd poblogaeth arbennig o uchel
- Archwilio cyfleoedd ynghylch sbwriel stryd, hybiau ailgylchu yng nghanol y trefi a biniau ailgylchu.

<u>Safleoedd Gwastraff Cartref</u>

- Sut y byddai newid nifer y safleoedd gwastraff cartref, eu lleoliadau, eu horiau agor a'r deunyddiau a dderbynnir ynddynt yn effeithio ar gost a pherfformiad gan ddeall yr effaith ar ddefnyddwyr y gwasanaeth.
- Bydd gofyn ystyried yr angen am ddatblygu safleoedd modern, hygyrch ac effeithlon sy'n addas at y diben.

Gorsafoedd Trosglwyddo Gwastraff

- Mae Cyngor Sir Ceredigion ar hyn o bryd yn adolygu cyfleusterau ei Orsafoedd Trosglwyddo Gwastraff, a bydd angen ystyried canlyniad yr adolygiad hwn.
- Archwilio cyfleoedd ar gyfer cydleoli cyfleusterau, megis cyfleusterau crynhoi ar gyfer gwastraff a gesglir wrth ymyl y ffordd a Safleoedd Gwastraff Cartref.

Ffyrdd o ddarparu'r gwasanaeth

- Ar hyn o bryd, caiff rhannau o'r gwasanaeth eu darparu'n fewnol a rhannau eraill eu darparu gan wasanaethau allanol. Mae Cyngor Sir Ceredigion am ddeall y rhagoriaethau a'r risgiau sy'n gysylltiedig â'r dull hwn o weithredu, gan ddeall y costau cymharol a manteision y dulliau eraill o weithredu.

Cyffredinol

- Mae angen i Gyngor Sir Ceredigion ddeall y buddsoddiad fydd ei angen yn y seilwaith er mwyn darparu gwasanaeth gwastraff yn y dyfodol. Dylai'r holl waith dadansoddi gynnwys costau cyfalaf a refeniw y seilwaith ychwanegol yn llawn, fel y bo'n briodol.

Y broses a gynigir o ran ymgysylltu gwleidyddol

Ystyrir mai'r gwasanaeth gwastraff yw un o wasanaethau pwysicaf y Cyngor a gall unrhyw newidiadau fod yn heriol ac yn ddadleuol. Mae'n bwysig felly i ni gytuno, o'r cychwyn cyntaf, sut y caiff yr adolygiad o'r gwasanaeth ei reoli a'i gyfathrebu o fewn y sefydliad, er mwyn sicrhau proses hwylus wrth wneud penderfyniadau.

Er mwyn cynorthwyo â'r broses o wneud penderfyniadau, cynigir bod y gwasanaeth gwastraff yn gweithio'n agos gyda'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Ffyniannus drwy gydol y broses o adolygu'r gwasanaeth a'i fod yn gofyn am sêl bendith gwleidyddol y Pwyllgor hwn yn rheolaidd wrth i'r prosiect fynd rhagddo.

ARGYMHELLION

Argymhellir bod y Pwyllgor yn gwneud y canlynol:

- Nodi'r sefyllfa bresennol, y risgiau a amlinellwyd a'r angen i adolygu'r gwasanaeth.
- Cytuno i benodi gwasanaeth ymgynghori annibynnol i adolygu'r gwasanaeth, gan nodi y bydd yn gweithio'n agos gyda'r gwasanaeth gwastraff.
- Cytuno y bydd y gwaith o adolygu'r gwasanaeth wedi'i gyfyngu, yn fras, i'r hyn a nodir yn yr adroddiad hwn.
- Cytuno y bydd y Pwyllgor yn cymryd rhan weithredol yn y prosiect a rhan flaenllaw o ran y broses ymgysylltu gwleidyddol a chymeradwyo.

LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL:	**A gwblhawyd Asesiad Effaith Integredig? Os naddo, nodwch pam**		Naddo Nid yw'r adroddiad hwn yn ymdrin â newid mewn polisi na strategaeth
	Crynodeb:		
	Hirdymor:		
	Integreiddio:		
	Cydweithio:		
	Cynnwys:		
	Atal:		

ARGYMHELLION:

Argymhellir bod y Pwyllgor yn gwneud y canlynol:

- Nodi'r sefyllfa bresennol, y risgiau a amlinellwyd a'r angen i adolygu'r gwasanaeth.
- Cytuno i benodi gwasanaeth ymgynghori annibynnol i adolygu'r gwasanaeth, gan nodi y bydd yn gweithio'n agos gyda'r gwasanaeth gwastraff
- Cytuno y bydd y gwaith o adolygu'r gwasanaeth wedi'i gyfyngu, yn fras, i'r hyn a nodir yn yr adroddiad hwn
- Cytuno y bydd y Pwyllgor yn cymryd rhan weithredol yn y prosiect a rhan flaenllaw o ran y broses ymgysylltu gwleidyddol a chymeradwyo.

RHESYMAU DROS YR ARGYMHELLION:

Er mwyn sicrhau bod y gwasanaeth rheoli gwastraff:

1. Yn parhau i gydymffurfio â'r ddeddfwriaeth berthnasol
2. Yn cyrraedd targedau ailgylchu statudol Llywodraeth Cymru
3. Yn effeithiol ac yn effeithlon o ran cost
4. Yn darparu gwasanaethau a chyfleusterau sy'n addas at y diben ac sy'n bodloni disgwyliadau rhesymol y cwsmeriaid.

Enw Cyswllt:	Gerwyn Jones
Swydd:	Rheolwr Corfforaethol, Gwasanaethau Amgylcheddol
Dyddiad yr adroddiad:	